


Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Martin Davis



Ganed Martin yn Llanrwst a'i fagu yn Stratford-upon-Avon. Astudiodd yr Wyddeleg a Hanes Cymru yn Aberystwyth ac ers 35 o flynyddoedd mae'n byw gyda'i wraig Siân yn Nhref Taliesin yng ngogledd Ceredigion ac yn gyfieithydd llawrydd. Mae wedi ysgrifennu pump o nofelau i oedolion (gan gynnwys *Ysbryd Sabrina*) ynghyd â llyfrau i blant, straeon byrion a sgrïptiau radio a theledu.



Crynodeb:

Ar drothwy'r mileniwm mae Dylan, brawd Hayley Havard, yn diflannu o'i gartref ar gyrion y Fenni. Y cipolwg olaf a gafwyd arno yr adeg honno oedd llun ar y system CCTV yng ngorsaf drenau Amwythig.

Ofer fu'r holl chwilio amdano ar y pryd ond bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, mae Hayley yn meddwl ei bod wedi'i weld o eto yn yr un dre. A hithau ar groesffordd emosiynol yn ei bywyd ac yn barod am newid, mae Hayley yn penderfynu ailgydio yn y chwilio a symud i fyw i Amwythig.

Wrth i fwy o hanes ei brawd coll ddod i'r fei, mae'n gorfod gwneud penderfyniadau mawr ynghlŷn â'i dyfodol...

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu'r llyfr hwn?

Digwyddiad ar Bont y Saeson yn Amwythig oedd y sbardun. Roedd sawl elfen ohono'n debyg i olygfa agoriadol *Ysbryd Sabrina* - dim ond iddo ddigwydd yng ngolau dydd ar ddiwrnod heulog ym mis Mai a thwr o bobol o gwmpas, yn hytrach nag ar noson rynnlyd ym mis Ionawr a bron neb o gwmpas. Hefyd, y ferch dan sylw yn y digwyddiad go iawn oedd fy chwaer-yng-nghyfraith, Chloë, nid Hayley Havard, ond mi oedd y drymiwr dirgel yno - heb ei gi!

Ers sbel ro'n i wedi bod eisiau ysgrifennu nofel wedi'i lleoli yn Amwythig, rhywle tu hwnt o ddi-ddorol fel safle tebycaf Pengwern erystalwm a lle mae fy ngwraig Siân a fi'n ymweld ag o yn aml. Mae'n lleoliad braf a chyfleus i gwrdd â ffrindiau a theulu o bob cwr.

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.

Stori am ymgais dynes ifanc i chwilio am ei brawd coll a thorri cwys iddi'i hun yn y byd sydd ohoni. Lleolir y nofel ar lannau afon Hafren, afon y dduwies Sabrina, lle mae adleisiau Pengwern yr oesoedd a fu a theithi ysgeler y byd cyfoes yn dod ynghyd.

Pa neges sydd gennych i ysbrydoli ysgrifenywyr ifanc?

Byddwch yn driw i chi'ch hun. Peidiwch ag ysgrifennu dim byd er mwyn cydymffurfio â beth sy'n boblogaidd yn unig os nad dyna beth sydd yn eich calon. Mae bob amser gynulleidfa i'ch stwff chi yn rhywle a does dim modd plesio pawb.

y Lolfa

www.ylolfaf.com



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru